Senedd Cymru | Welsh Parliament
Ymchwil y Senedd | Senedd Research

P-06-1201: Gwahardd saethu rhywogaethau adar sydd mewn perygl difrifol a rhoi'r diogelwch sydd ei angen mor daer arnynt!

Y Pwyllgor Deisebau | 1 Tachwedd 2021
Petitions Committee | 1 November 2021

Cyfeirnod: SR21/1044-3

Rhif y ddeiseb: P-06-1201

Teitl y ddeiseb: Gwahardd saethu rhywogaethau adar sydd mewn perygl difrifol a rhoi'r diogelwch sydd ei angen mor daer arnynt!

Geiriad y ddeiseb: Mae'n anodd credu y caniateir i rai o'r adar sydd o dan y bygythiad mwyaf gael eu saethu o hyd yng Nghymru, gan gynnwys cyffylogod (woodcocks), hwyaid pengoch (pochard), ceiliogod du (black grouse) a giachod (snipes).
Ar hyn o bryd, mae'r rhywogaethau hyn ar y rhestrau COCH ac AMBER o adar o bryder cadwraethol 4. Mae hynny'n golygu mai dyma'r rhywogaethau sydd â'r flaenoriaeth gadwraethol uchaf yn y DU ar hyn o bryd.
Rydym yn deall yn iawn efallai nad saethu yw prif reswm am eu dirywiad, ond ar yr adeg pan mae angen yr amddiffyniad mwyaf arnynt, gwallgofrwydd yw caniatáu iddynt gael eu saethu.

Rydym yn galw am waharddiad llwyr ar saethu unrhyw adar sydd ar y rhestrau coch ac amber o adar o bryder cadwraethol 4.
Mae arbenigwyr yn casglu tystiolaeth ecolegol a gwyddonol ynghyd ar iechyd rhywogaethau, ond mae'r gyfraith a grwpiau lobïo o blaid gynnau yn dewis anwybyddu'r ffeithiau.
Dim ond tua 200 o geiliogod du sydd ar ôl yng Nghymru. Mae'r rhywogaeth hon sydd ar y rhestr goch yn datgelu'r rhagrith o wario symiau mawr o arian i geisio gwarchod yr adar bregus hyn ond eto caniatáu iddynt gael eu saethu ar yr un pryd.

Gyda'i blu prydferth a'i guddliw, mae'r cyffylog yn rhywogaeth restredig goch arall sy'n cael ei thargedu gan bobl yn saethu ar hyn o bryd, er bod eu niferoedd yn gostwng yn gyflym iawn.
Er bod saethu adar hela yn y DU yn cael ei reoli trwy dymhorau agored a chaeedig, sy'n cyfyngu ar yr amser o'r flwyddyn y gellir saethu adar, rydym yn galw am waharddiad llwyr ar saethu'r adar hyn sydd mewn perygl o ddiflannu. Er bod y digwyddiadau saethu hyn yn draddodiad yn ôl rhai pobl, mae'n bryd newid y gyfraith i ddiogelu ein bywyd gwyllt sydd dan fygythiad.

1. Cefndir

1.1. Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, a Chyfarwyddeb Adar yr UE

Mae pob rhywogaeth o adar gwyllt yng Nghymru yn cael ei gwarchod o dan y *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981)* ('y Ddeddf Bywyd Gwyllt'). Y Ddeddf Bywyd Gwyllt sy'n gweithredu Cyfarwyddeb Adar yr UE yn y DU.

Mae Atodlen 2, Rhan I, i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt yn rhestru rhywogaethau'r adar gwyllt y gall rhywun awdurdodedig eu cymryd neu eu lladd y tu allan i'w 'tymor caeedig'. Mae tymhorau caeedig yn gyfnodau ar gyfer rhywogaethau penodol pan na chaniateir cymryd na lladd yr adar hynny.

1.2. Adar o bryder cadwraethol 4

Adar o bryder cadwraethol 4 (BoCC4) yw'r pedwerydd adolygiad o statws cadwraethol adar yn y DU. Mae'n gydweithrediad rhwng cyrff cadwraeth natur statudol y DU, y Gymdeithas Frenhinol er Amddiffyn Adar (RSPB), Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (BTO), a sawl sefydliad arall. Mae'n cynnwys rhestrau sy'n pennu categori'r 244 o rywogaethau adar y DU o dan statws 'Coch', 'Oren' a 'Gwyrdd', gan ddibynnu ar eu pwysigrwydd cadwraethol.

Mae rhestrau BoCC4 yn cael eu defnyddio gan sefydliadau cadwraeth fel yr RSPB ar gyfer blaenoriaethu eu gweithredu. Rhywogaethau ar y rhestr goch sydd â'r flaenoriaeth gadwraethol uchaf (67 rhywogaeth), ac mae angen gweithredu ar frys yn eu cylch.

Mae'n gyfreithlon cymryd neu ladd sawl aderyn sydd ar restr goch BoCC4 o dan Atodlen 2, Rhan I, i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

2.1. *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*

O dan adran 7 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* ('Deddf yr Amgylchedd'), mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi rhestrau o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth sydd, yn ei barn hi, 'o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru'. Disgwylir i awdurdodau cyhoeddus gymryd camau i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn ac i annog eraill i weithredu yn yr un modd.

Mae'r rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth wedi cael eu trosi o *Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006* ("Deddf NERC") (adran 42) fel mesur interim, ond mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r rhestrau mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r rhywogaethau â blaenoriaeth a restrir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd yn cynnwys adar gwyllt y gellir eu cymryd neu eu lladd o dan Atodlen 2, Rhan I, i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt.

2.2. Dileu rhywogaethau o Atodlen 2, Rhan I, i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt

Yn 2020, dileodd Cymru ŵydd dalcenwyn yr Ynys Las o Atodlen 2, Rhan I i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt. Drwy wneud hyn, daeth yn drosedd (o dan adran 1 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt) lladd neu gymryd gwyddau talcenwyn yr Ynys Las y tu allan i'r tymor caeedig.

Penderfynwyd dileu gwyddau talcenwyn yr Ynys Las o Atodlen 2, Rhan I, yn dilyn cwyn o dan y Cytundeb ar Gadwraeth Adar Dŵr Ymfudol Affrica-Ewrasia ("yr AEWA"), sef cytundeb rhynglywodraethol annibynnol y mae'r DU yn llofnodwr iddo. Mae'r AEWA yn cydgysylltu cadwraeth a rheolaeth adar dŵr ymfudol drwy gydol eu hamrediad ymfudol.

Croesawodd RSPB Cymru yr amddiffyniad cyfreithiol ar gyfer gwyddau talcenwyn yr Ynys Las. Dadleuodd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC) fod moratoriwm gwirfoddol, sydd ar waith mewn rhai ardaloedd yng Nghymru ers 1972, wedi bod yn llwyddiannus ac wedi negyddu'r angen am waharddiad cyfreithiol.

Yn 2018, nododd Hannah Blythyn, Gweinidog yr Amgylchedd ar y pryd y canlynol:

> Ni cheir unrhyw gynlluniau i gyflwyno newidiadau eraill i Atodlen 2, o ran ychwanegu na dileu unrhyw rywogaethau eraill.

2.3. Ymateb y Gweinidog i'r ddeiseb hon

Mae llythyr y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y ddeiseb hon yn nodi'r canlynol:

> Byddai angen i unrhyw newidiadau rheoleiddiol i restru rhywogaethau rhestredig ar y rhestri oren a choch fel adar i'w saethu gael eu hategu gan dystiolaeth gadarn i gefnogi'r newid hwnnw, ac mae angen eu hystyried ochr yn ochr â ffactorau eraill sy'n cyfrannu at ddirywiad y rhywogaethau hyn sydd mewn perygl megis colli cynefin ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ni fu unrhyw gamau sylweddol gan y Senedd ynglŷn â dileu adar prae oddi ar y Rhestr Goch o Atodlen 2, Rhan I, i'r Ddedd Bywydd Gwyllt.

> Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.